# CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID
# LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

| | |
|---|---|
| Clerc<br>*Clerk*<br>**Caroline Jones**<br>01248 602131<br>CyngorLlanllechid@ogwen.org | 26 Stryd Fawr<br>Bethesda<br>Gwynedd<br>LL57 3AE |

**Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd ar nos Iau y 13fed o Orffenaf am 1900yh yn Festri capel Bethlehem, Talybont**

**1. PRESENNOL:**

**Ward Llanllechid Isaf**
Y Cynghorydd Geraint Hughes
Y Cynghorydd Alun Thomas
Y Cynghorydd Robin Williams

**Ward Llanllechid Uchaf**
Y Cynghorydd Jên Morris
Y Cynghorydd Dafydd K Jones
Y Cynghorydd Kevin Williams

Y Cynghorydd Sîr Dafydd Meurig

**Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Y Cadeirydd Kevin Williams.**

**2. Ymddiheuriadau**

Y Cynghorydd Evan Jones
Y Cynghorydd Lowri Evans
Y Cynghorydd Wyn Bowen-Harris

**3. Cofnodion**

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 8fed o Fehefin 2022.

**4. Materion yn codi o’r cofnodion**

**4.1 Twll yn y ffordd ger Wern Bach –** Ebost wedi ei yrru i Ian Morgan, Cyngor Gwynedd yn gofyn am ddiweddariad yn dilyn cyfarfod Mis Mawrth. Disgwyl ymateb.
**4.2 Arwyddion Maes y Groes –** Cafwyd cadarnhad fod arwyddion Maes y Groes ar rhestr archeb y Cyngor. Nid yw’r rhestr wedi ei gyflwyno i’r cyflenwyr hyd yma. Dim

diweddariad. Ebost wedi ei yrru i Ian Morgan, Cyngor Gwynedd yn gofyn am ddiweddariad yn dilyn cyfarfod Mis Mawrth. Disgwyl ymateb.
**4.3 Arwyddion Cyflymder Maes y Groes** Y Cyng. Dafydd Meurig yn rhoi cais i osod cyfarpar monitro cyfymder yn y safle**.** Dim diweddariad.
**4.4 Bryn Derwas –** Gosod bin halen Bryn Derwas ar rhestr asesiad Cyngor Gwynedd. Dim diweddariad.
**4.5 Darpariaeth Ysgol Llanllechid i ddatblygiad Cae Rhosydd**. **–** Mae'r Cyng Geraint Hughes wedi drafftio llythyr at sylw Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd yn amlygu yr effaith ac obligadau tymor hir y bydd y datblygaid yn cael ar yr ardal. Y Clerc i ddosbarthu i llythyr i'r Cynghorwyr unwaith y ceir gopi.
**4.6 Safle bws Talybont –** Disgwyl ymateb gan Siwan Llynor.
**4.7 Diffyg cyfleusterau i helwyr Cocos ar draeth Lafan –** Y Clerc wedi derbyn galwad ffôn gan y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch yn egluro heb fanylion cyflogwr nid ydynt yn medru ymchwilio'r mater. Mi fyddant yn cadw yr achos yn agored ac oes unrhyw diweddariadau Y Clerc i gysylltu. Cytynwyd i dynnu oddi ar y cofnodion.

**4.8 Dwr yn llifo Chwarel y Bryn –** Ebost wedi ei yrru i Ian Morgan, Cyngor Gwynedd yn gofyn am ddiweddariad yn dilyn cyfarfod Mis Mawrth. Disgwyl ymateb.

**4.9 Tyllau yn y ffordd a dwr yn codi Lôn Aber Ogwen a Ty'n Hendre –** Dim diweddariad.

**4.10 Dwr ar y ffordd Coed Uchaf, Lôn Goed -** Dim diweddariad.

**4.11 Diffyg biniau baw ci ar lwybr beicio Wîg -** Ebost wedi ei yrru at Swyddog Prosiect Tim Tacluso 'Ardal Ni' yn holi am osod biniau. Dim diweddariad.

**4.12 Tai i bobl lleol –** Y Cyng Dafydd Meurig yn adrodd y broses cywir.

**4.13 Mast telathrebu, Talybont –** Adroddwyd Y Cyng Alun Thomas fod ganddo bryderon am gyn cais cynllunio C23/0038/21/HT. Y Clerc wedi cysylltu gyda Cyngor Gwynedd i argymell gosod rhyw fath o rhwystr damwain o amgylch y mast. Dim diweddariad.

**4.14 Ysbwriel –** Y Clerc i wneud ymholiadau gyda Partneriaeth Ogwen ynglyn ac argaeledd/costau y Swyddog Cynhaliaeth.

**5. Adroddiad Cyngor Sir**

Y Cyng Dafydd Meurig yn bresennol yn y cyfarfod. Adroddwyd fod diwygiadau i ddeddfwriaethau cynllunio yn golygu fod modd i Awdurdodau Cynllunio Lleol (Cyngor Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri yng Ngwynedd) gyflwyno'r hyn a elwir yn Gyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli'r defnydd o dai fel ail gartrefi a llety gwyliau.

Yn dilyn ymgymryd â'r camau hanfodol, mae'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 yn galluogi Awdurdod Cynllunio Lleol i fynnu fod perchnogion eiddo yn derbyn hawl cynllunio cyn newid defnydd eu heiddo yn ail gartref neu lety gwyliau tymor-byr.

Hefyd, adroddwyd fod adolygiad o'r polisi datblygu lleol ar y gweill.

**6. Taliadau**

Awdurdodwyd y canlynol;

| | | |
|---|---|---|
| Kehoe Countryside Ltd | Torri Cae Peldroed | £300 |
| Julian Johnson | Torri a hel Gwair Mis Mai | £150 |
| ROSPA | Arolygiad blynyddol Cae Chwarae Talybont | £115.20 |
| Julian Johnson | Torri a hel Gwair Mis Mehefin | £75 |
| DE Williams fencing | Torri gwair Cae Chwarae | £100 |

**7. Y Mynydd**

Dim i'w hadrodd.

**8. Cae Peldroed/Cae Chwarae Talybont**

**8.1 Container** – Container wedi cyrraedd y cae. Trefniadau yn ei le i symud i ben draw y cae.
**8.2 Peiriant torri gwair** - Y Cyng. Alun Thomas wedi cael pris am beiriant torri gwair - oddeutu £9000.
**8.3** Y Cyng. Robin Williams wedi gwneud ymholiadau gyda ADRA ynglyn a'r posibilrwydd o gydweithio gyda'r Cae Peldroed. Y Clerc wedi anfon ail ebost at Mr Mathew Gosset - Dirprwyo Gyfarwyddwr Asedau ADRA. Dim diweddariad.
**8.4 Contractwr** - Y Cyng. Alun Thomas am gael manylion contractwr. Dim diweddariad.
**8.5 Grantiau** – Y Clerc i wneud ymholiadau i mewn i grantiau sydd ar gael.

**9. Sedd Wag**

Derbyniwyd cais am y sedd wag. Y Cyng  Geraint Hughes yn datgan diddordeb.
Yn dilyn pleidlais, cafodd Rhydian Williams ei gyfethol i'r sedd wag.

**10. Rheolau Sefydlog**

Cytynwyd i fabwysiadu y Rheolau Sefydlog 2023.

**11. Gohebiaeth**

Trafodwyd y canlynol

**11.1 Adroddiad ROSPA cae chwarae Talybont.** Dim angen atgyweiriadau.

**12. Adroddiadau gan Gynrychiolwyr**

Adroddwyd gan Y Cyng Kevin Williams fod gwaith yn mynd ymlaen yn Llyn goch.

**13. Ceisiadau a phenderfyniadau Cynllunio**

**C21/0078/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Torri a thocio coed sy'n destun gorchymyn gwarchod coed 3/TPO/GCC/17 (ail-gyflwyniad a diweddariad o gais rhif C20/0154/21/CC)
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C21/0099/21/CC**
Ogwen Bank, Bethesda
Mesurau i ddiogelu coed a gorchymyn coed arnynt yn ystod gwaith i uwchraddio'r parc carafanau
**Penderfyniad:** Ar y gweill.

**C23/0382/21/DT**
Fferm Tyddyn Isaf, Tal Y Bont, Bangor
Dymchwel adeilad allanol ar ochr yr adeilad (adfail) a chodi estyniad newydd ar yr ochr a lolfa haul ar cefn ty annedd.
**Penderfyniad** Ar y gweill

**Ceisiadau Newydd**

Dim

**14. Materion Brys/Eraill**

**14.1 Twll yn y ffordd ger Giat lôn Bryn Eithin –** Y Clerc i ddilyn i fyny gyda Cyngor Gwynedd
**14.2 Hel Mis Mehefin -** Y Clerc i yrru llythyr i unigolion yn ei hatgoffa o reolau y mynydd - Yn bennaf rheol 6. *Mae'n ddyletswydd ar i bob porwr fod yn bresennol yn eu helfa, neu iddynt ddanfon cynrychiolydd ar eu rhan.*
**14.3 Sêl Wyn di nôd** - Y Clerc i hysbysebu y digwyddiad.

**15. Adroddiad Llais Ogwan**

Cynhalwyd Cyfarfod Misol y Cyngor Cymuned ar y 13fed o Fehefin yn Festri Capel Bethlehem, Talybont.

Arwyddwyd gan y Cadeirydd ___________________________________

Ymunodd y Cynghorydd Sir Dafydd Meurig a’r cyfarfod. Trafodwyd bryderon am sefyllfa tai yn yr ardal i bobl lleol.

Mae'r ‘container’ bellach yn ei le ar y Cae Peldroed yn Nhalybont, gyda’r gobaith o brynnu peiriant torri gwair yn fuan.

Mae Partneriaeth y Carneddau wedi bod yn ffilmio ar y Carneddau ag edrychwn ymlaen i weld y prosiect gorffenedig.

Arwyddwyd gan y Cadeirydd ___________________________________